TGAU

# CBAC TGAU Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 4: Cymdeithas sy'n newid

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# Cynnwys

Ynglŷn â'r pecyn hwn: Gwybodaeth i athrawon ........ 1
Rheoli'r asesiad ........ 2
Taflen Cofnodi Marciau'r Ymgeisydd: Uned 4 ........ 5
Pecyn Asesu Ymgeiswyr ........ 6

SAMPL

**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Cyfyngedig 2024.



© WJEC CBAC Cyf, 2024

# Ynglŷn â'r pecyn hwn: Gwybodaeth i athrawon

Yn y pecyn hwn mae deunyddiau asesu Uned 4: Cymdeithas sy'n newid

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:
- gwybodaeth i athrawon ar sut i reoli trefniadau asesu
- taflen cofnodi marciau
- **pecyn ymgeiswyr** sy'n cynnwys:
  - manylion yr aseiniad
  - crynodeb manwl o bob tasg
  - gwybodaeth i ymgeiswyr, sy'n dweud wrth ymgeiswyr yr hyn y dylen nhw ac na ddylen nhw ei wneud wrth gwblhau'r asesiad
  - y cynllun marcio y mae'n rhaid ei ddefnyddio i asesu gwaith ymgeiswyr
  - Ffurflen Datganiad yr Ymgeisydd
  - taflen Cofnodi Amser yr Ymgeisydd.

**Rhaid rhoi copi o'r pecyn asesu ymgeiswyr cyflawn i bob ymgeisydd.**

## Paratoi ar gyfer yr Asesiad

Yn ystod y cwrs, bydd dysgwyr yn mynd i'r afael â phedair eitem fesul thema yn yr ystafell ddosbarth (dwy ffynhonnell hanesyddol a dau ddehongliad). O'r eitemau hyn (cyfanswm o 36), bydd 15 yn cael eu dewis gan y ganolfan i ddysgwyr ddewis ohonynt wrth gwblhau'r Asesiad Di-arholiad. Bydd y rhain yn cynnwys pedair eitem ar gyfer pob un o'r ddwy thema osod, ac un eitem ar gyfer pob un o'r saith thema arall.

Er enghraifft, os bydd **Diwylliant** a **Gwleidyddiaeth** yn cael eu dewis fel y themâu gosod un flwyddyn, byddai'r pymtheg eitem wedi'u dewis i'w hasesu fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Diwylliant**<br>Dwy ffynhonnell<br>Dau ddehongliad | **Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Ethnigrwydd**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad |
| **Cysylltiadau rhyngwladol**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Heddwch a gwrthdaro**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Gwleidyddiaeth**<br>Dwy ffynhonnell<br>Dau ddehongliad |
| **Crefydd**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Rhyw, rhywioldeb a rhywedd**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Materion cymdeithasol ac economaidd**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad |

Bydd canolfannau yn gallu gosod yr eitemau hyn mewn templed pecyn asesu sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan CBAC.



© WJEC CBAC Cyf, 2024

SAMPL

## Rheoli'r asesiad

Asesiad di-arholiad (mewnol) wedi'i farcio gan y ganolfan yw hwn. Rhaid dilyn y trefniadau canlynol wrth reoli a marcio'r asesiad

### Amser

Rhaid rhoi **4 awr 15 munud** i'r ymgeiswyr i gwblhau'r asesiad hwn. Mae'r asesiad yn ymholiad hanesyddol pum cam, y gellid ei gwblhau mewn un sesiwn, neu mewn nifer o sesiynau byrrach. Yn fras, dylai ymgeiswyr dreulio:

- 40 munud yn cwblhau cam 1
- 90 munud yn cwblhau cam 2
- 20 munud yn cwblhau cam 3
- 85 munud yn cwblhau cam 4
- 20 munud yn cwblhau cam 5

Mae’r amser a awgrymir ar gyfer pob tasg yn ystyried cyfraniad y dasg at y gofynion asesu cyffredinol. Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i gyfanswm yr amser sydd ar gael ar gyfer yr asesiad hwn. Fodd bynnag, gall canolfannau addasu'r amser a awgrymir sydd ar gael ar gyfer pob tasg.

### Adnoddau

Rhaid i'r pecyn asesu ymgeiswyr ac unrhyw adnoddau angenrheidiol fod ar gael i'r ymgeiswyr. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y tablau manwl ynglŷn â'r tasgau yn y pecyn ymgeiswyr.

| | |
|---|---|
| **Wedi'u caniatáu** | Mae adnoddau a/neu nodiadau paratoadol ar gael i ymgeiswyr yn unol â'r briff neu ganllawiau'r uned.<br><br>Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.<br><br>Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau neu ganllawiau pwnc-benodol. |

Os yw’r lefel o reolaeth yn nodi bod adnoddau ‘wedi’u caniatáu’, mae’r adnoddau wedi’u cyfyngu fel a ganlyn:

| Tasg: | Adnoddau wedi'u caniatáu: |
|---|---|
| Camau 1-4 | Wrth ymgymryd â'r ymholiad hanesyddol, rhaid rhoi copïau glân o'r eitemau sydd yn y pecyn asesu i'r dysgwyr.<br><br>Gwaith dosbarth/nodiadau ar gyfer yr uned.<br><br>Unwaith y bydd yr asesiad wedi dechrau, rhaid i ganolfannau gadw'r holl waith dosbarth/nodiadau wedi'u storio'n ddiogel yn y ganolfan.<br><br>Ni chaniateir i ddysgwyr ddod â gwaith dosbarth/nodiadau newydd neu ychwanegol i'r asesiad ar ôl iddo ddechrau. |

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

**Cydweithio**

**Ni** chaniateir gwaith grŵp. Rhaid i ddysgwyr gwblhau pob tasg yn unigol.

**Goruchwylio**

Rhaid i aseswr oruchwylio ymgeiswyr wrth gwblhau'r gweithgareddau. Mae'n rhaid i ganolfannau roi systemau ar waith er mwyn sicrhau na all ymgeiswyr ddefnyddio tystiolaeth y maent wedi bod yn ei datblygu y tu allan i weithgareddau a oruchwylir.

| Math | Disgrifiad |
|---|---|
| **Uniongyrchol** | Mae cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau.<br>Rhaid i'r ganolfan sicrhau:<br>• bod y goruchwyliwr yn gallu gweld pob ymgeisydd yn glir drwy gydol y sesiwn/sesiynau<br>• bod deunyddiau arddangos a allai fod o gymorth yn cael eu tynnu neu eu gorchuddio<br>• nad yw ymgeiswyr yn gallu defnyddio e-bost, y rhyngrwyd na ffonau symudol<br>• bod ymgeiswyr yn cwblhau eu gwaith yn annibynnol<br>• nad yw ymgeiswyr yn cyfathrebu â'i gilydd<br>• nad oes unrhyw fath o gymorth yn cael ei roi.<br>• rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.<br><br>Lle nodir goruchwyliaeth uniongyrchol, rhaid i'r ganolfan sicrhau bod poster Dim Ffonau Symudol y CGC a Rhybudd i Ymgeiswyr y CGC yn cael eu harddangos. |

**Dilysu**

Rhaid cael trefniadau goruchwylio ar waith er mwyn sicrhau dilysrwydd y dystiolaeth a gynhyrchir ar gyfer asesiad crynodol.
Ni ddylech roi mewnbwn nac arweiniad i ymgeiswyr yn ystod yr amser asesu. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ffurfiannol ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno. Gallwch chi ddarparu arweiniad ar ofynion y dasg ac atgoffa ymgeiswyr am y bandiau marcio a sut i'w dehongli.

Gall ymgeiswyr adolygu ac ailddrafftio tystiolaeth yn annibynnol o fewn y rheolaethau amser ar gyfer yr asesiad.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lofnodi'r datganiad hwn i gadarnhau mai eu gwaith nhw yw'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'w chymedroli a bod unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod.

Mae'n rhaid i aseswyr lofnodi'r datganiad i gadarnhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w chymedroli wedi'i chwblhau dan reolaeth fel y nodir yn yr asesiad hwn.

Rhaid i ganolfannau ddarparu pecyn asesu enghreifftiol gyda'r pymtheg eitem sydd ar gael i ddysgwyr ar gyfer yr ymholiad hanesyddol (un fesul canolfan).



© WJEC CBAC Cyf, 2024

SAMPL

## Tystiolaeth yr ymgeisydd

Mae tablau’r tasgau yn crynhoi’r fformatau sy’n dderbyniol ar gyfer tystiolaeth pob un o'r tasgau. Rhaid i unrhyw asesiad wedi'i addasu alluogi'r ymgeisydd i gynhyrchu'r dystiolaeth angenrheidiol yn y tabl hwn.

## Marcio'r asesiad

Cafodd cynllun marcio'r asesiad hwn ei gynnwys yn y pecyn i ymgeiswyr.

Rhaid marcio'r holl dystiolaeth yn erbyn y cynllun marciau a ddarperir. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth sy'n cael ei marcio gydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n berthnasol i ofynion y bandiau marcio.

Dim ond aseswr dynodedig a ddylai farcio tasgau. Dylai fod gan aseswr yr arbenigedd priodol yn y pwnc a'r lefel ar gyfer uned benodol. Mae'r aseswr yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod yr asesiad yn cael ei gynnal dan y rheolaethau a nodir yn nhabl y tasgau
- ei fod yn deall gofynion yr asesiad a'r cynllun marcio cyn dechrau’r asesu
- bod y dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn ddilys, awthentig; dibynadwy a chredadwy
- bod penderfyniadau asesu yn cael eu cofnodi'n gywir
- bod y dystiolaeth yn cael ei hanodi'n briodol
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau bandiau marcio yn unig

Rhaid cwblhau taflen cofnodi marciau ar gyfer pob ymgeisydd.

## Gwybodaeth Bellach

Dylech gyfeirio at Gyfarwyddiadau CGC ar gynnal asesiadau di-arholiad i gael gwybod mwy am sut i reoli asesiadau yn ein cymwysterau TGAU.

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Taflen Cofnodi Marciau'r Ymgeisydd: Uned 4

| **Rhif y Ganolfan:** | | | | | | | | **Enw'r Ganolfan:** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Rhif yr Ymgeisydd:** | | | | | | | | **Enw'r Ymgeisydd:** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Uned:** | |
| **Opsiwn a astudiwyd ar gyfer Uned 1:** | |

| **Tasg** | **Marc a Ddyfarnwyd** |
|---|---|
| **Cam 1** | /10 |
| **Cam 2** | /25 |
| **Cam 3** | /5 |
| **Cam 4** | /30 |
| **Cam 5** | /10 |
| **Cyfanswm Marciau** | **/80** |

SAMPL

Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig. Mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer AI a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rwy'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn

| | |
|---|---|
| **Llofnod yr aseswr** | |
| **Enw (printiwch)** | |
| **Dyddiad** | /    /20 |



© WJEC CBAC Cyf, 2024

CBAC Hanes

# Pecyn Asesu Ymgeiswyr

# Uned 4: Cymdeithas sy'n newid (3130N4)

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Ynglŷn â'r pecyn hwn: gwybodaeth a chyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Mae'r pecyn asesu ymgeiswyr hwn i ymgeiswyr sy'n cwblhau Uned 4 – Cymdeithas sy'n newid.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:
- eich aseiniad
- crynodeb manwl o bob tasg, y gofynion tystiolaeth, a'r amodau (rheolaethau) ar gyfer cwblhau'r dasg.
- gwybodaeth i ymgeiswyr, sy'n dweud wrthych am bethau y bydd yn rhaid i chi eu gwneud a pheidio â'u gwneud wrth gwblhau'r asesiad
- y cynllun marcio a fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu eich gwaith
- Ffurflen Datganiad
- taflen Cofnodi Amser.

**Bydd gennych gyfanswm o 4 awr 15 munud i gwblhau'r asesiad hwn.** Gellid ei gwblhau mewn un sesiwn, neu mewn nifer o sesiynau byrrach. Dylech dreulio tua:
- 40 munud yn cwblhau cam 1
- 90 munud yn cwblhau cam 2
- 20 munud yn cwblhau cam 3
- 85 munud yn cwblhau cam 4
- 20 munud yn cwblhau cam 5

Cewch eich goruchwylio trwy gydol yr asesiad.

Mae eich athro/athrawes yn cael eich helpu chi i ddeall briffiau gofynion yr asesu a'r camau, ond mae rhai rheolau am y math o gymorth maen nhw'n cael ei roi a faint maen nhw'n cael eich helpu chi. Siaradwch â'ch athro os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hyn rydych chi'n cael a ddim yn cael ei wneud wrth gwblhau'r tasgau. Bydd eich athrawon yn gwybod faint o gymorth maen nhw'n gallu ei roi i chi.

Mae’n bwysig eich bod chi'n gweithio’n annibynnol ac yn sicrhau mai eich gwaith chi yn unig, heb gymorth, yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi eich hun yw'r holl waith a gaiff ei gyflwyno.

Cewch eich cynghori i wirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn fanwl ac yn gywir.

**Ni ddylech drafod na rhannu unrhyw fanylion am y briff tan ar ôl 5 Mai 202X.**

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Asesiad: Ymholiad hanesyddol pum cam, gan ddangos dealltwriaeth o newid dros gyfnod o tua 75 - tua 100 mlynedd

Byddwch yn astudio cyfnod parhaus o 75 i 100 mlynedd, gan gwmpasu **naw thema** trwy naw testun hanesyddol ar wahân er mwyn deall cyfnod o newid mewn cymdeithas.

Mae angen i chi gynnal ymholiad hanesyddol, gan ddangos dealltwriaeth o newid dros gyfnod o tua 75 - tua 100 mlynedd. Byddwch yn derbyn dwy thema benodol pan fyddwch yn dechrau'r asesiad ac yn dewis un o dri chwestiwn gosod i fynd i'r afael â'r themâu hyn.

Cam 1: Adolygu'r cwestiwn, y llinell amser a'r naratif ac yn ffurfio rhagdybiaeth
Cam 2: Adolygu a dadansoddi'r dystiolaeth (eitemau) yn feirniadol
Cam 3: Cynllunio'r ymateb
Cam 4: Datblygu'r ymateb
Cam 5: Adfyfyrio'n feirniadol ar y broses rydych chi wedi ymgymryd â hi a'r casgliad rydych chi wedi'i gyrraedd

Bydd yr aseiniad yn cael ei farcio allan o gyfanswm o 80 marc.

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Camau

<table>
<tr><th></th><th>Cam</th><th>Tystiolaeth</th><th>Rheolaethau</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Dewis y cwestiwn, adolygu'r dystiolaeth a ffurfio rhagdybiaeth.<br><br>Dewiswch un o'r tri chwestiwn ac adolygwch y dystiolaeth (yr eitemau) sydd ar gael. Yn seiliedig ar yr hyn rydych chi'n ei ddeall am y cyfnod, lluniwch ragdybiaeth mewn ymateb i'r cwestiwn sydd wedi'i osod.<br><br>[10 marc]</td><td>Ymateb ysgrifenedig.</td><td>Goruchwyliaeth:<br>Goruchwyliaeth uniongyrchol<br>Arweiniad:<br>Heb ei ganiatáu<br>Adnoddau:<br>• copïau glân o'r eitemau o fewn y pecyn asesu.<br>• Gwaith dosbarth/nodiadau ar gyfer yr uned.<br>Cydweithio:<br>Heb ei ganiatáu</td></tr>
<tr><td colspan="4">Dylech chi dreulio tua 40 munud yn cwblhau'r cam hwn.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Adolygu a dadansoddi'r dystiolaeth (eitemau) yn feirniadol<br><br>Gan ystyried y rhagdybiaeth rydych wedi'i llunio, cwblhewch y camau canlynol:<br>• Adolygu'n gryno'r 15 eitem sydd wedi'u rhoi fel tystiolaeth hanesyddol<br>• Dewis chwech o'r eitemau hyn ac esbonio'n fyr pam rydych chi wedi'u dewis, ac nid y naw arall. Dylai'r eitemau rydych chi wedi'u dewis gynnwys amrywiaeth o dystiolaeth i brofi a chyfiawnhau eich rhagdybiaeth (gan gynnwys o leiaf un ffynhonnell ac un dehongliad hanesyddol)<br>• Gan ddefnyddio eich gwybodaeth a'r hyn rydych chi'n ei ddeall, a gan ystyried y cwestiwn sydd wedi'i osod, dadansoddwch a gwerthuswch y chwe eitem rydych chi wedi'u dewis. Ystyriwch eu cynnwys a'u priodoliadau.<br>[25 marc]</td><td>Ymateb ysgrifenedig yn esbonio eich dewis o eitemau.<br><br>Gwerthusiad a dadansoddiad ysgrifenedig o bob eitem rydych chi wedi'u dewis.</td><td>Goruchwyliaeth:<br>Goruchwyliaeth uniongyrchol<br>Arweiniad:<br>Heb ei ganiatáu<br>Adnoddau:<br>• copïau glân o'r eitemau o fewn y pecyn asesu.<br>• Gwaith dosbarth/nodiadau ar gyfer yr uned.<br>Cydweithio:<br>Heb ei ganiatáu</td></tr>
<tr><td colspan="4">Dylech chi dreulio tua 1 awr 30 munud yn cwblhau'r cam hwn.</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Cynllunio'r ymateb<br>Dylech chi nawr roi cynllun clir i'r ymateb.<br><br>Dylai eich cynllun amlinellu strwythur eich ymateb, gan ystyried:</td><td>Cynllun clir.</td><td>Goruchwyliaeth:<br>Goruchwyliaeth uniongyrchol<br>Arweiniad:<br>Heb ei ganiatáu<br>Adnoddau:<br>• copïau glân o'r eitemau o fewn y pecyn asesu.</td></tr>
</table>

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • y cwestiwn a'r rhagdybiaeth gychwynnol (wedi'i chwblhau yng Ngham 1)<br>• y defnydd o'r eitemau rydych chi wedi'u dewis (wedi'u dewis yng Ngham 2).<br>[5 marc] | | • Gwaith dosbarth/nodiadau ar gyfer yr uned.<br>Cydweithio:<br>Heb ei ganiatáu |
| Dylech chi dreulio tua 20 munud yn cwblhau'r cam hwn. | | | |
| **4** | **Datblygu'r ymateb**<br>Atebwch y cwestiwn.<br><br>Y nifer mwyaf o eiriau sy'n cael ei argymell ar gyfer y dasg hon yw 1500 o eiriau.<br>[30 marc] | Gall yr ymateb i'r cwestiwn fod mewn testun parhaus (brawddegau llawn a pharagraffau), yn gyflwyniad (PowerPoint ac ati), yn bodlediad neu mewn ffordd briodol arall. | Goruchwyliaeth:<br>Goruchwyliaeth uniongyrchol<br>Arweiniad:<br>Heb ei ganiatáu<br>Adnoddau:<br>• copïau glân o'r eitemau o fewn y pecyn asesu.<br>• Gwaith dosbarth/nodiadau ar gyfer yr uned.<br>Cydweithio:<br>Heb ei ganiatáu |
| Dylech chi dreulio tua 1 awr 25 munud yn cwblhau'r cam hwn. | | | |
| **Ar ôl i chi gwblhau'r cam hwn a symud ymlaen i gam 5, gallwch adolygu, ond ni ddylech olygu camau 1 i 4.** | | | |
| **5** | **Myfyrio beirniadol**<br>Myfyriwch ar eich perfformiad yn y dasg gan ystyried amrywiaeth o **gryfderau** a **gwendidau**.<br>• Rhaid i hyn fod yn benodol i'r gwaith rydych chi wedi'i gwblhau ar y dasg hon<br>• Dylech chi ystyried y pethau aeth yn dda a chynnig awgrymiadau ar ba bethau y byddech chi'n eu gwneud yn wahanol i ateb y cwestiwn sydd wedi'i osod yn fwy effeithiol.<br>• Y nifer mwyaf o eiriau sy'n cael ei argymell ar gyfer y dasg hon yw 300 o eiriau.<br>[10 marc] | Ymateb ysgrifenedig. | Goruchwyliaeth:<br>Goruchwyliaeth uniongyrchol<br>Arweiniad:<br>Heb ei ganiatáu<br>Adnoddau:<br>• copïau glân o'r eitemau o fewn y pecyn asesu.<br>• Gwaith dosbarth/nodiadau ar gyfer yr uned.<br>Cydweithio:<br>Heb ei ganiatáu |
| Dylech chi dreulio tua 20 munud yn cwblhau'r cam hwn. | | | |

*Cwestiynau ar y dudalen nesaf

SAMPLE



© WJEC CBAC Cyf, 2024

# Cwestiynau gosod ar gyfer yr ymholiad hanesyddol

O'r naw thema sydd wedi'u cynnwys yn yr uned hon, bydd CBAC yn dewis dwy thema fel canolbwynt yr ymholiad. Bydd y rhain yn cael eu gosod gan CBAC a byddant yn newid yn flynyddol.

Yna bydd dysgwyr yn dewis un allan o dri chwestiwn gosod, a fydd yn aros yr un fath ar gyfer oes y cymhwyster.

**Cwestiynau**

Aseswch arwyddocâd *[thema osod 1]* a *[thema osod 2]* yn y cyfnod rhwng _____ a ____ i hanesydd sy'n astudio achos a chanlyniadau hanesyddol dros y cyfnod hwnnw.

Yn eich ymateb, rhaid i chi ddefnyddio:
- yr hyn rydych chi'n ei ddeall o'r cyfnod rydych chi wedi'i astudio
- yr hyn rydych chi'n ei ddeall o'r ardal ddaearyddol rydych chi wedi'i hastudio
- amrywiaeth o ffynonellau a deunydd deongliadol.

**Neu**

Aseswch arwyddocâd *[thema osod 1]* a *[thema osod 2]* yn y cyfnod rhwng _____ a ____ i hanesydd sy'n astudio parhad a newid dros y cyfnod hwnnw.

Yn eich ymateb, rhaid i chi ddefnyddio:
- yr hyn rydych chi'n ei ddeall o'r cyfnod rydych chi wedi'i astudio
- yr hyn rydych chi'n ei ddeall o'r ardal ddaearyddol rydych chi wedi'i hastudio
- amrywiaeth o ffynonellau a deunydd deongliadol.

**Neu**

Aseswch arwyddocâd *[thema osod 1]* a *[thema osod 2]* yn y cyfnod rhwng _____ a ____ i hanesydd sy'n astudio nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol dros y cyfnod hwnnw.

Yn eich ymateb, rhaid i chi ddefnyddio:
- yr hyn rydych chi'n ei ddeall o'r cyfnod rydych chi wedi'i astudio
- yr hyn rydych chi'n ei ddeall o'r ardal ddaearyddol rydych chi wedi'i hastudio
- amrywiaeth o ffynonellau a deunydd deongliadol.

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

# Enghraifft o asesiad

**Yn yr enghraifft hon, y themâu a osodwyd gan CBAC yw DIWYLLIANT ac ETHNIGRWYDD.**

**Yn yr enghraifft hon, y cyfnod hanesyddol a ddewiswyd gan y Ganolfan yw: Effaith y Goncwest Normanaidd ar ynys Prydain Fawr tua 1060–tua 1153**

## Cyflwyniad i'r dasg

Yn ystod eich astudiaethau ar gyfer Uned 4 rydych wedi ymdrin â **naw thema** ar effaith y Goncwest Normanaidd ar ynys Prydain Fawr rhwng tua 1060 a thua 1153. Mae'r naw thema hyn wedi cael eu haddysgu trwy naw testun hanesyddol. Mae'r themâu a'r testunau fel a ganlyn:

**Cysylltiadau rhyngwladol**
Yr olyniaeth Eingl-Sacsonaidd

**Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb**
Y Drefn Ffiwdal

**Heddwch a gwrthdaro**
Gwrthwynebiad Eingl-Sacsonaidd i reolaeth Normanaidd, 1067–1070

**Diwylliant**
Datblygiad cestyll

**Ethnigrwydd**
Anheddu Iddewig ar ôl Concwest y Normaniaid

**Crefydd**
Archesgob Lanfranc a Christnogaeth yn Ynysoedd Prydain, 1070–1089

**Materion cymdeithasol ac economaidd**
Llyfr Domesday

**Gwleidyddiaeth**
Harri I a'r Siarter Rhyddidau, 1100

**Rhyw, rhywioldeb a rhywedd**
Yr Ymerodres Matilda a'r Anarchiaeth

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Y Cwestiynau

Wrth ddewis eich cwestiwn, cofiwch fod yn rhaid i chi ddefnyddio'r canlynol yn eich ymateb:
- yr hyn rydych chi'n ei ddeall am y cyfnod rhwng tua 1060 a thua 1153
- yr hyn rydych chi'n ei ddeall am natur Lloegr yn y cyfnod hwn
- amrywiaeth o ddeunydd ffynhonnell a deongliadol o'r detholiad canlynol. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio chwe eitem, a gellir tynnu'r rhain o unrhyw adran rydych chi'n meddwl sy'n berthnasol i'ch ymateb.

Dewiswch ac anodwch **un** o'r cwestiynau canlynol:

Aseswch arwyddocâd **diwylliant ac ethnigrwydd** yn y cyfnod rhwng **tua 1060 a thua 1153** i hanesydd sy'n astudio achos a chanlyniadau hanesyddol dros y cyfnod hwnnw.

**Neu**

Aseswch arwyddocâd **diwylliant ac ethnigrwydd** yn y cyfnod rhwng **tua 1060 a thua 1153** i hanesydd sy'n astudio parhad a newid dros y cyfnod hwnnw.

**Neu**

Aseswch arwyddocâd **diwylliant ac ethnigrwydd** yn y cyfnod rhwng **tua 1060 a thua 1153** i hanesydd sy'n astudio nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol dros y cyfnod hwnnw.

SAMPLE



© WJEC CBAC Cyf, 2024

# Yr eitemau

*Pecyn enghreifftiol gan CBAC – ar gyfer yr asesiad byw bydd y pecyn hwn yn cael ei greu gan y ganolfan.*

## Eitem A

**Cysylltiadau rhyngwladol**

Wedi'i addasu o gofnod blog o'r enw *"The death of Edward the Confessor and the conflicting claims to the English Crown"* ar wefan Llywodraeth Prydain (2016).

Edward oedd mab hynaf y Brenin Æthelred ('yr Amharod') o'i ail briodas i Emma, chwaer y Dug Rhisiart II o Normandi. Roedd y briodas hon wedi cael ei threfnu fel rhan o ymdrechion Æthelred i wella cysylltiadau Lloegr â Normandi. Ond roedd gan Æthelred feibion o'i briodas gyntaf i Æflgifyu o Efrog, a phan fu farw yn 1016, bu brwydr am yr orsedd rhwng ei fab hynaf a oedd yn goroesi, Edmwnd Haearnydd, a Cnut Fawr o Ddenmarc. Fodd bynnag, o fewn misoedd, bu farw Edmwnd hefyd, a daeth Cnut yn frenin Lloegr.

Ar farwolaeth Cnut, dechreuodd anghydfod olyniaeth arall rhwng meibion gwraig gyntaf Cnut, Æflgifyu o Northampton, a meibion ei ail wraig, gweddw Æthelred, Emma. Yn yr anghydfod hwnnw, cafodd brawd Edward, Alfred, ei lofruddio, o bosibl ar anogaeth Emma. Dim ond ar ôl saith mlynedd hir y daeth Edward yn frenin Lloegr yn 1042, gan roi llinach Wessex yn ôl ar orsedd Lloegr.

## Eitem B

**Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb**

Darlun canoloesol o daeogion yn cynaeafu gwenith gyda chrymanau dan oruchwyliaeth maer [uwch swyddog â chyfrifoldebau lleol] (tua 1310)





© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Eitem C — Heddwch a gwrthdaro

Hanes o'r gwrthwynebiad i reolaeth Normanaidd gan y Mynach a'r Hanesydd Seisnig, Orderic Vitalis, yn ei gronicl *Historia Ecclesiastica* [Hanes yr Eglwys] (1141).

Doedd yr amddiffynfeydd yr oedd y Normaniaid yn eu galw yn gestyll braidd yn bodoli yn Lloegr ac felly – er gwaethaf y dewrder a'r cariad hwnnw at ymladd – dim ond gwrthwynebiad gwan oedd gan y Saeson yn erbyn eu gelynion.

## Eitem CH — Diwylliant

Disgrifiad o adeiladu cestyll gorthyrau sgwâr (*square-keep*) yn y gwerslyfr *The Medieval Realms* (1991)

Roedd gan gestyll tomen a beili wendidau. Roeddent wedi'u hadeiladu allan o bren, a oedd yn pydru'n hawdd a gellid eu rhoi ar dân gan filwyr gelynion. Roeddent hefyd yn gyfyng, yn ddrafftiog ac yn anghyfforddus. Ers dechrau'r goncwest roedd y Normaniaid wedi adeiladu rhai cestyll pwysig, fel y Tŵr Gwyn yn Llundain, allan o garreg. Ar ôl 1100, cafodd llawer mwy o gestyll cerrig eu hadeiladu, ac roeddent fel arfer yn sgwâr o ran eu siâp

## Eitem D — Diwylliant

Golygfa o'r unfed ganrif ar hugain wedi'i hail-greu o Dŵr Llundain, Castell Normanaidd wedi'i amgylchynu gan Waliau Rhufeinig. Mae pobl yn credu mai dyma sut y byddai'r Tŵr wedi edrych yn y flwyddyn tua 1100





© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Eitem DD

**Diwylliant**

Ffotograff o'r unfed ganrif ar hugain o Gastell Cas-gwent ar y clogwyni uwchben Afon Gwy yn Nhrefynwy. Cafodd y gwaith o adeiladu'r castell ei ddechrau ym 1067. Cas-gwent oedd y mwyaf deheuol o'r cestyll a gafodd eu hadeiladu ar draws y Mers fel amddiffynfeydd Normanaidd yn erbyn ymosodiadau gan y Cymry.



## Eitem E

**Diwylliant**

O “Ail Ddilyniant” y *Peterborough Chronicle* (1132–1154).

**1137** Pan ddaeth y Brenin Steffan i Loegr, cynhaliodd ei gyngor yn Rhydychen. Yno cipiodd ef yr Esgob Roger o Gaersallog, yr Esgob Alexander o Lincoln, a'i nai Roger y canghellor, a'u taflu i gyd i'r carchar nes iddynt roi'r gorau i'w cestyll. Ond pan ddeallodd yr uchelwyr a oedd yn cefnogi Matilda mai dyn addfwyn – tyner a da – oedd Stephen, nad oedd yn gweithredu cyfiawnder llym fe ddaethon nhw'n anghofus o'u llw iddo.
Fe wnaeth yr uchelwyr hyn lenwi'r tir â chestyll a gorthrymu dynion truenus y tir yn greulon trwy adeiladu cestyll. Pan gafodd y cestyll eu creu, fe wnaethon nhw eu llenwi â chythreuliaid a dynion drwg. Fe wnaethant gymryd unrhyw un yr oeddent yn tybio fod ganddynt gyfoeth a'u taflu i'r carchar am eu haur a'u harian.

Ni chafodd unrhyw ferthyron byth eu harteithio yn y fath fodd â nhw: cafodd rhai eu hongian gerfydd eu traed a'u mygu â mwg afiach, rhai eu hongian gerfydd eu bodiau, eraill gerfydd eu pen, gyda chrysau mael wedi'u hongian ar eu traed. Fe wnaethant glymu llinynnau o amgylch eu pennau a'u troi nes iddynt fynd i'w hymennydd. Fe wnaethant eu taflu i ddwnsiynau lle'r oedd nadroedd a llyffantod a'u lladd felly. Fe wnaethant roi rhai mewn cist a oedd yn fyr, yn gul ac yn fas, a rhoi cerrig miniog i mewn a malu'r dyn y tu mewn a thorri pob un o'i freichiau a'i goesau. Mewn llawer o'r cestyll roedd hualau (*shackles*) trwm – llyffetheiriau (*fetters*) a dolenni rhedeg (*nooses*) – a oedd mor drwm fel nad oedd dau neu dri dyn prin yn gallu cario un ohonynt. Fe wnaethant eu clymu i drawst; a gosod haearn miniog o amgylch gwddf y dyn, fel nad oedd yn gallu troi i unrhyw gyfeiriad. Nid oedd yn gallu eistedd, gorwedd, cysgu, dim ond cynnal yr holl bwysau hwnnw. Fe wnaethant ladd miloedd lawer trwy eu newynu.
Ni allaf ddweud am yr holl erchyllterau a'r holl boenau a berodd loes i'r dynion truenus yn y wlad hon, a pharhaodd hyn am 19 gaeaf tra roedd Steffan yn frenin, ac aeth pethau yn waeth ac yn waeth.



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Eitem F **Ethnigrwydd**

Wedi'i addasu o erthygl o'r enw *"England's Jewish Population"* yn cyflwyno ymwelwyr i Dwr Clifford, Efrog ar wefan English Heritage (dechrau'r unfed ganrif ar hugain)

Ar ôl Concwest Normanaidd 1066, daeth nifer o Iddewon i Loegr o Rouen yn Ffrainc. Roedd angen i'r brenhinoedd Normanaidd cynnar gael benthyg arian i adeiladu cestyll a diogelu eu teyrnas, ond roedd benthyca arian wedi'i wahardd i Gristnogion. Fodd bynnag, roedd wedi'i ganiatáu i Iddewon. Roedd yr Iddewon hyn a oedd yn siarad Ffrangeg, wedi'u diogelu gan y Goron, ac mewn amser fe wnaethon nhw sefydlu cymunedau yn y rhan fwyaf o brif ddinasoedd Lloegr. Ar ddiwedd y ddeuddegfed ganrif, ymgartrefodd aelodau o'r gymuned Iddewig yn Lincoln yn Efrog.

Fodd bynnag, roedd gelyniaeth gynyddol tuag at y boblogaeth Iddewig yn Lloegr. Roedd hyn yn rhannol oherwydd anghytundebau cyhoeddus mewn diwinyddiaeth rhwng ysgolheigion Iddewig ac eglwyswyr Cristnogol. Yng nghanol y ddeuddegfed ganrif cafodd sawl stori filain eu lledaenu yn cyhuddo Iddewon o lofruddio plant Cristnogol. Roedd athrod o'r fath, a elwir bellach yn 'Enllib Gwaed', yn cryfhau teimladau gwrth-Semitig yn Lloegr.

## Eitem FF **Ethnigrwydd**

Darnau o *Rhôl Fawr y Siecr* [cofnodion ariannol y Trysorlys] *ar gyfer pumed flwyddyn teyrnasiad y Brenin Harri II, 1158–1159*. Mae'r symiau yr oedd pob cymuned Iddewig wedi'u cyfrannu i'r dreth (donwm) a gafodd ei chodi yn tua 1159 yn dangos lleoliad yr aneddiadau hyn. Noder:
Swllt = 12 ceiniog
Marc = 13 swllt a 4 ceiniog (160 ceiniog)
Punt = 20 swllt (240 ceiniog)

| | |
|---|---|
| Swydd Northampton | Mae'r un siryf yn dychwelyd cyfrifiad o 15 punt gan Iddewon Swydd Northampton. |
| Llundain a Middlesex | Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 200 marc fesul Iddew. |
| Swydd Gaerwrangon | Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 2 farc fesul Iddew. |
| Swydd Rydychen | Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 20 marc fesul Iddew |
| Swydd Gaerloyw | Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 5 marc gan yr Iddewon. |
| Swydd Lincoln | Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 40 punt fesul Iddew. |
| Norwich | Mae'r un siryf yn gwneud swm o 43 punt a 6 swllt ac 8 ceiniog gan Iddewon Norwich. |



© WJEC CBAC Cyf, 2024

SAMPL

## Eitem G

**Ethnigrwydd**

Wedi'i addasu o adroddiad o lofruddiaeth honedig William o Norwich, prentis deuddeg oed, gan Iddewon yn Norwich ym 1144. Cafodd yr adroddiad ei ysgrifennu gan y mynach, Tomos o Fynwy, yn ei gofiant *The Life and Miracles of St William of Norwich*, rywbryd rhwng 1149 a 1172.

Ar ddydd y Pasg Iddewig, ar ôl canu'r emynau yn y synagog, ymgynullodd penaethiaid yr Iddewon yn Nhŷ'r Iddew lle'r oedd y bachgen William. Yn sydyn, fe wnaethon nhw gael gafael ar y bachgen wrth iddo gael ei swper a'i drin mewn gwahanol ffyrdd erchyll. Am gyfnod roedd rhai ohonynt yn ei ddal yn ôl, eraill wedi agor ei geg a mewnosod offeryn arteithio sy'n cael ei alw'n *teazle* - safnglo (*gag*) pren - a'i glymu â strapiau trwy'r ddwy ên i gefn ei wddf, gwnaethant ei glymu â chwlwm mor dynn ag y gellid ei dynnu. Ar ôl hynny, gan gymryd darn byr o raff o tua thrwch bys bach a chlymu tri chwlwm ynddo mewn mannau penodol wedi'u marcio allan, fe wnaethant rwymo'r rhaff o amgylch y pen diniwed hwnnw, gan wthio'r cwlwm canol i'w dalcen a'r ddau arall i'w arleisiau *(temples)*. Fe wnaethant ymestyn dwy ben y rhaff wrth gefn ei ben a'u clymu mewn cwlwm tynn iawn. Yna cafodd dwy ben y rhaff eu pasio o amgylch ei wddf ac o amgylch ei lwnc a'i ên, ac yno fe orffennon nhw'r teclyn arteithio ofnadwy hwn gyda phumed cwlwm …

Ar ôl eillio ei ben, fe wnaethant ei drywanu â phwyntiau ddraenen ddi-ri, a gwneud i'r gwaed lifo'n erchyll o'r clwyfau a wnaethant ... Roedd rhai o'r rhai a oedd yn bresennol o'r farn y dylid ei glymu i groes mewn gwawd o angerdd yr Arglwydd, fel pe bai'n dweud “Fel y gwnaethom gondemnio'r Crist i farwolaeth gywilyddus felly gadewch inni gondemnio'r Cristion”.

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Eitem NG — Ethnigrwydd

Torlun pren o'r oesoedd canol hwyr o'r enw "Guilhelmus puer crucifixus" [mae'r bachgen William yn cael ei groeshoelio] o weithdy'r arlunydd Almaenig Michel Wolgemut, yng Nghronicl Nuremberg (tua 1493). Mae'n darlunio croeshoeliad honedig William o Norwich gan Iddewon.







© WJEC CBAC Cyf, 2024

**Eitem H** | **Crefydd**

Golygfa o'r awyr o Eglwys Gadeiriol Caer-wynt, wedi'i sefydlu ym 1079. Mewn coch mae'r eglwys Sacsonaidd wreiddiol y cafodd ei lleoli arni.



SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Eitem I

**Cymdeithas ac economi**

Fideo *BBC Bitesize* yn esbonio pam roedd angen Llyfr Domesday ar William (dechrau'r unfed ganrif ar hugain)

Roedd pa mor llwyddiannus yr oedd concwest William o Loegr wedi'i ddatgelu mewn arolwg, a gafodd ei gynnal ym 1086.

Gyda'r bygythiad cyson o wrthryfel, roedd angen iddo wybod faint o dreth y gallai ei godi i ariannu byddin. Cynhaliodd comisiynwyr Normanaidd gwestau cyhoeddus mewn trefi a phentrefi ledled Lloegr. Fe wnaethant holi pwy oedd yn dal y tir nawr, a phwy oedd yn berchen arno ym 1066. Roedden nhw eisiau gwybod popeth, o faint o ddynion rhydd a chaethweision oedd, i faint o erydr a moch.

Roedd y Saeson yn ei alw'n Llyfr Domesday, sef dydd y farn. Datgelodd fod William yn berchen ar tua 20% o gyfoeth Lloegr, ei farwniaid 50%, a'r Eglwys 25%. Dim ond 5% pitw oedd ym meddiant yr uchelwyr Seisnig oedd wedi goroesi.

Roedd yr Eingl-Sacsoniaid wedi cael eu trechu'n llwyr. Roedd William wedi concro, a chael gafael ar rym Lloegr, ac roedd y Normaniaid wedi cymryd drosodd yn llwyr.

## Eitem J

**Gwleidyddiaeth**

Cymal 1 Siarter Rhyddidau Harri I (1100)

1. Dylech wybod trwy drugaredd Duw, a chyngor cyffredin barwniaid holl deyrnas Lloegr, fy mod wedi fy nghoroni'n frenin y deyrnas honno; ac oherwydd bod y deyrnas wedi cael ei gormesu gan drethiannau anghyfiawn [trethi annheg], rwyf, trwy ofn Duw a'r cariad sydd gennyf tuag atoch chwi oll, yn y lle cyntaf yn sicrhau rhyddid Eglwys Sanctaidd Duw, fel na fyddaf yn gwerthu nac yn dosbarthu, nac ar farwolaeth archesgob neu esgob neu abad yn cymryd unrhyw beth o ddemên [ystâd] yr Eglwys neu oddi wrth ei dynion nes i'r olynydd gael mynediad iddo. Ac rwy'n cael gwared ar yr holl arferion drwg a oedd yn gormesu teyrnas Lloegr yn anghyfiawn.

## Eitem L

**Rhyw, rhywioldeb a rhywedd**

Darn o lyfr gan yr hanesydd poblogaidd Phillipa Gregory ar rôl menywod mewn Hanes o'r enw *Normal Women: 900 years of making History* (2023)

[Yr Ymerodres] Matilda oedd y fenyw Normanaidd gyntaf i etifeddu gorsedd Loegr, ac i gael ei gorfodi i fod y frenhines gyntaf filwriaethus – gan godi ei byddin ei hun a'i harwain i frwydr am ddwy flynedd o ysgarmesau, nes ei buddugoliaeth ym Mrwydr Lincoln ym 1141. Carcharodd yr ymhonnwr Steffan ac anwybyddodd alw gan ei wraig, y Frenhines Matilda o Boulogne. Yna fe wnaeth Matilda o Boulogne godi ei byddin ei hun i ysbeilio'r wlad o amgylch Llundain, gan berswadio Llundeinwyr i ymgynghreirio â hi yn erbyn yr ymerodres, a symudodd ei lluoedd i Gaer-wynt a chodi gwarchae ar gastell yr esgob. Aeth Matilda o Boulogne ar drywydd yr Ymerodres Matilda a'i threchu. Am chwe blynedd arweiniodd yr Ymerodres Matilda ei milwyr ei hun, ei deiliaid a'i marchogion ei hun, a thalodd hurfilwyr i'w dilyn i frwydr. Yn y pen draw, fe wnaeth Steffan gydnabod ei orchfygiad a gwneud heddwch, ond hyd yn oed wedyn ni ildiodd yr orsedd. Enwodd fab Matilda yn etifedd, a daeth y bachgen yn Harri II.



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Gwybodaeth i ymgeiswyr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn dod o ddogfennau'r CGC Gwybodaeth i Ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad a Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau. Mae'n rhoi gwybod i chi am rai pethau y mae'n **rhaid** i chi eu gwneud ac y mae'n **rhaid i chi beidio** â'u gwneud wrth i chi gwblhau eich asesiad. Os nad ydych yn deall rhywbeth, **rhaid** i chi ofyn i'ch athro.

### Paratoi eich gwaith

- Pan fyddwch yn cyflwyno eich gwaith ac yn llofnodi eich ffurflen datganiad yr ymgeisydd, mae angen i chi sicrhau bod eich cynnyrch terfynol yn dangos eich gwaith annibynnol chi eich hun. Ni ddylai fod yn gopi nac yn aralleiriad o ffynhonnell arall fel adnodd AI.
- Os byddwch yn derbyn cymorth ac arweiniad gan unrhyw un heblaw eich athro, **rhaid** i chi ddweud wrth eich athro a fydd wedyn yn cofnodi natur y cymorth a roddwyd i chi.
- Os buoch chi'n gweithio fel rhan o grŵp ar dasg, **rhaid** i bob un ohonoch chi ysgrifennu eich cyfrif eich hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gennych chi'r un fath, **rhaid** i chi ddisgrifio yn eich geiriau eich hun sut cafwyd y data hynny a **rhaid** i chi ddod i'ch casgliadau eich hun am y data yn annibynnol.
- Cymerwch ofal o'ch gwaith a'i gadw'n ddiogel. **Peidiwch** â'i adael o gwmpas lle gall eich cyd-ddisgyblion ddod o hyd iddo neu ei rannu ag unrhyw un, gan gynnwys ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. **Rhaid** i chi bob amser gadw eich gwaith yn ddiogel ac yn gyfrinachol wrth i chi ei baratoi; **peidiwch** â'i rannu â'ch cyd-ddisgyblion. Os byddwch yn ei gadw ar rwydwaith cyfrifiadur, cadwch eich cyfrinair yn ddiogel. Casglwch yr holl gopïau o'r argraffydd a dinistriwch y rheini nad oes eu hangen arnoch.
- **Peidiwch** â chael eich temtio i ddefnyddio datrysiadau ar-lein sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw (pethau fel y rhai sy'n cael eu cynhyrchu gan offeryn neu sgwrsfot AI) – twyllo yw hyn. Gall offer electronig sy'n cael eu defnyddio gan CBAC ganfod y math hwn o gopïo.
- **Ni ddylech** ysgrifennu deunydd amhriodol, anweddus na sarhaus.

### Llên-ladrad

Llên-ladrad yw cymryd geiriau, barn neu syniadau rhywun arall a cheisio honni mai eich gwaith chi ydyw. **Mae'n fath o dwyllo ac mae'n cael ei gymryd o ddifrif.** Peidiwch â meddwl na chewch chi eich dal; mae sawl ffordd o ganfod llên-ladrad:

- Gall marcwyr sylwi ar newidiadau yn arddull yr ysgrifennu a'r defnydd o iaith.
- Mae marcwyr yn arbenigwyr pwnc hynod brofiadol – efallai y byddant wedi darllen y ffynhonnell rydych chi'n ei defnyddio, neu hyd yn oed wedi marcio'r gwaith rydych chi wedi copïo ohono!
- Gellir defnyddio peiriannau chwilio'r rhyngrwyd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol i gysylltu ymadroddion neu ddarnau o destun â ffynonellau gwreiddiol ac i ganfod newidiadau mewn gramadeg ac yn arddull yr ysgrifennu neu'r atalnodi.

### Cosbau am dorri'r rheoliadau

Os gwelir eich bod chi wedi torri'r rheoliadau, byddwch chi'n cael eich cosbi gan ddefnyddio un o'r cosbau canlynol:

- bydd y darn o waith yn cael marciau o sero
- byddwch chi'n cael eich diarddel o'r Uned honno ar gyfer y gyfres asesu dan sylw
- byddwch chi'n cael eich diarddel o'r pwnc cyfan ar gyfer y gyfres asesu dan sylw
- byddwch chi'n cael eich diarddel o bob pwnc a'ch rhwystro rhag ailgofrestru am gyfnod o amser.

CBAC fydd yn penderfynu pa gosb sy'n briodol.

**Cofiwch – eich cymhwyster chi ydyw felly rhaid mai eich gwaith chi ydyw.**



© WJEC CBAC Cyf, 2024

SAMPLE

## Uned 4 Cynllun Marcio

| Cam 1 – Dewis y cwestiwn, adolygu'r dystiolaeth a ffurfio rhagdybiaeth | | |
|---|---|---|
| **Band** | **AA2** | **AA4** |
| **5** | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | |
| **4** | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | |
| **3** | **3 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. | **4–5 marc**<br>• Mae'r rhagdybiaeth yn ymateb yn argyhoeddiadol ac yn gryno i'r cwestiwn a ddewiswyd. |
| **2** | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **2–3 marc**<br>• Mae'r rhagdybiaeth a ddarparwyd yn anghyson. |
| **1** | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1 marc**<br>• Mae'r rhagdybiaeth a ddarparwyd yn gamarweiniol. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAM



© WJEC CBAC Cyf, 2024

| Cam 2 – Adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol | | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **AA2** | **AA3** | **AA4** |
| **5** | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. | **9–10 marc**<br>• Amrywiaeth gynhwysfawr o eitemau wedi'u dewis ar gyfer yr ymholiad.<br>• Sail resymegol drachywir ac argyhoeddiadol wedi'i rhoi am y dewis a wnaed. |
| **4** | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. | **7–8 marc**<br>• Amrywiaeth dda o eitemau wedi'u dewis ar gyfer yr ymholiad.<br>• Sail resymegol glir ac yn bennaf argyhoeddiadol wedi'i rhoi am y dewis a wnaed. |
| **3** | **3 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. | **5–6 marc**<br>• Amrywiaeth foddhaol o eitemau wedi'u dewis ar gyfer yr ymholiad.<br>• Sail resymegol anghyson a/neu ymhlyg wedi'i rhoi am y dewis a wnaed. |
| **2** | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. | **3–4 marc**<br>• Amrywiaeth gyfyngedig o eitemau wedi'u dewis ar gyfer yr ymholiad.<br>• Sail resymegol gyfyngedig wedi'i rhoi am y dewis a wnaed. |

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o amrywiaeth o eitemau wedi'u dewis ar gyfer yr ymholiad.<br>• Ychydig iawn o sail resymegol wedi'i rhoi am y dewis a wnaed. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Cyf, 2024

| Cam 3 – Cynllunio'r ymateb | |
|---|---|
| **Band** | **AA4** |
| **3** | **4-5 marc**<br>• Mae'r cynllun yn argyhoeddiadol ac yn gryno ac yn gwneud cyfeiriadau penodol at sut y bydd yr eitemau'n cael eu defnyddio. |
| **2** | **2-3 marc**<br>• Mae'r cynllun yn anghyson ac mae cyfeiriadau ymhlyg at sut y bydd yr eitemau'n cael eu defnyddio. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae cyfeiriadau at yr eitemau, ond nid yw'n glir sut y bydd y rhain yn cael eu defnyddio i gyfrannu at y ddadl. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

| Cam 4 – Datblygu'r ymateb | | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **AA2** | **AA3** | **AA4** |
| **5** | **9–10 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. | **9–10 marc**<br>• Ymateb cydlynol wedi'i strwythuro'n argyhoeddiadol sy'n dwyn ynghyd ddealltwriaeth y dysgwr o'r testun a'u defnydd o'r eitemau. |
| **4** | **7–8 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. | **7–8 marc**<br>• Ymateb wedi'i strwythuro'n glir sy'n dwyn ynghyd ddealltwriaeth y dysgwr o'r testun a'u defnydd o'r eitemau. |
| **3** | **5–6 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. | **5–6 marc**<br>• Mae strwythur yr ymateb yn foddhaol ac yn dangos yn oblygedig dealltwriaeth o'r testun. Mae rhywfaint o ymgais i integreiddio'r eitemau mewn dadl. |
| **2** | **3–4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. | **3–4 marc**<br>• Ymateb wedi'i strwythuro'n wael sy'n dangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r testun. Mae'r defnydd o'r eitemau yn arwynebol. |

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. | **1–2 farc**<br>• Ymateb naratif, anstrwythuredig, sy'n dangos ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r testun. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Cyf, 2024

| Cam 5 – Myfyrio beirniadol | |
|---|---|
| **Band** | **AA4** |
| **5** | **9–10 marc**<br>• Mae cryfderau **a** gwendidau wedi'u nodi (o leiaf **tri** i gyd) mewn perthynas â'r **cwestiwn penodol.**<br>• Mae awgrym **priodol ac argyhoeddiadol** wedi'i gynnig ar ba agweddau fyddai'n cael eu gwneud yn wahanol i ateb y cwestiwn a osodwyd yn fwy effeithiol. |
| **4** | **7–8 marc**<br>• Mae un cryfder **ac** un gwendid wedi'i nodi mewn perthynas â'r **cwestiwn penodol.**<br>• Mae awgrym **priodol a chlir** wedi'i gynnig ar ba agweddau fyddai'n cael eu gwneud yn wahanol i ateb y cwestiwn a osodwyd yn fwy effeithiol. |
| **3** | **5–6 marc**<br>• Mae cryfderau **neu** wendidau wedi'u nodi mewn perthynas â'r **cwestiwn penodol.**<br>• Mae awgrym **priodol** wedi'i gynnig ar ba agweddau fyddai'n cael eu gwneud yn wahanol i ateb y cwestiwn a osodwyd yn fwy effeithiol. |
| **2** | **3–4 marc**<br>• Mae cryfderau **neu** wendidau wedi'u nodi ond mae'r rhain yn **gyffredinoledig.**<br>• Mae awgrym wedi'i gynnig ond **nid yw'n benodol** i sut y byddai'n ateb y cwestiwn a osodwyd yn fwy effeithiol. |
| **1** | **1–2 farc**<br>• Mae cryfder **neu** wendid wedi'i nodi ond mae'n **gyffredinoledig.**<br>• Ni wnaed awgrym ar ba agweddau fyddai'n cael eu gwneud yn wahanol i ateb y cwestiwn a osodwyd yn fwy effeithiol. |
| **0** | **0 marc**<br>• Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

**Bydd marc o 0 yn cael ei roi os nad oes tystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu marc.**

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

**Hawlfraint**

Mae'r eitemau a ddefnyddir yn yr adnodd hwn yn cael eu defnyddio at ddibenion addysgiadol (nad ydynt yn fasnachol) yn unig, i hwyluso'r dysgu ac ar gyfer dadansoddi critigol. Darparwyd ffurflen gydnabyddiaeth ar gyfer pob eitem. Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r holl eitemau'n cael eu defnyddio mewn cydymffurfiaeth â'r Polisi Defnydd Teg; os oes hepgoriadau neu anghywirdebau, rhowch wybod i ni fel ein bod yn gallu gwneud unrhyw gywiriadau angenrheidiol.datblygucymwysterau@cbac.co.uk

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf, 2024

Ffurflen Datganiad yr Ymgeisydd

**Rhaid i chi gwblhau Rhan A a Rhan B y ffurflen hon**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Ganolfan:** | | | | | | | | **Enw'r Ganolfan:** | |
| **Rhif yr Ymgeisydd:** | | | | | | | | **Enw'r Ymgeisydd:** | |
| **Teitl yr Uned:** | | | | | | | | | |

**Rhan A: Datganiad yr Ymgeisydd**

| **Cyfeiriadau:** Nodwch o ba ffynhonnell yn union y daeth unrhyw ddeunydd nad yw'n wreiddiol sydd wedi ei ddefnyddio yn yr aseiniad. | **Rhestr o becynnau meddalwedd/offer/sgwrsfotiau AI[1]:** Nodwch yn fyr sut gwnaethoch chi ddefnyddio'r rhain yn yr aseiniad. |
|---|---|
| | |

**Datganiad Dilysu**
Rwy'n datgan fy mod wedi cwblhau fy ngwaith yn annibynnol, heb unrhyw gymorth y tu hwnt i'r hyn oedd wedi ei ganiatáu. Fy ngwaith fy hun yw'r gwaith i gyd, ac eithrio unrhyw ddeunydd nad yw'n wreiddiol sydd wedi'i nodi'n glir uchod. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gyflwyno ar gyfer unrhyw gymhwyster arall. Yr wyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rwy'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.

| **Llofnod yr ymgeisydd:** | **Dyddiad:** |
|---|---|

SAMPL

[1] Lle defnyddiwyd offer AI fel ffynhonnell gwybodaeth, rhaid i chi ddangos enw'r ffynhonnell AI a ddefnyddiwyd gan ddangos hefyd y dyddiad y cynhyrchwyd y cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2023. Rhaid i chi gadw copi o'r cwestiwn (cwestiynau) a'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur at ddibenion cyfeirnodi a dilysu, ar ffurf nad oes modd ei golygu (sgrinlun, er enghraifft) a darparu esboniad byr o sut cafodd ei ddefnyddio. Rhaid cyflwyno hyn gyda'ch gwaith, er mwyn i'r athro/aseswr allu adolygu'r gwaith, y cynnwys a gynhyrchwyd gan AI a sut y cafodd ei ddefnyddio.



© WJEC CBAC Cyf, 2024

## Taflen Cofnodi Amser Yr Ymgeisydd

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Ganolfan:** | | | | | | | | **Enw'r Ganolfan:** | |
| **Rhif yr Ymgeisydd:** | | | | | | | | **Enw'r Ymgeisydd:** | |
| **Teitl yr Uned:** | | | | | | | | | |

Dyma'r oriau gafodd eu hamseru dan oruchwyliaeth:

| **Tasgau** | **Dyddiadau** | | | **Amser** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DD** | **MM** | **BB** | **Awr** | **Munudau** |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | **Cyfanswm** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rwy'n tystio bod yr uchod yn gofnod cywir o'r amser gafodd ei dreulio ar yr asesiad hwn. | | | |
| Enw'r Asesydd: | | | |
| Llofnod yr Asesydd: | | Dyddiad: | |

SAMPL

**Diwedd y Pecyn Asesu Ymgeiswyr**



© WJEC CBAC Cyf, 2024